



Camau Cynnar gyda'n Gilydd

Early Action Together

Rhaglen ACEau yr Heddlu a Phartneriaid
Police & Partners ACEs Programme

Beth yw'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd?

Mae **Camau Cynnar gyda'n Gilydd** yn bartneriaeth aml-asiantaeth rhwng iechyd cyhoeddus a phlisma yn Nghymru, a ariennir gan Gronfa Trawsnewid yr Heddlu y Swyddfa Gartref, ac sy'n mynd i'r afael ag achosion gwreiddiol ymddygiad troseddol er mwyn galluogi'r heddlu a staff cyfiawnder troseddol i gymryd camau ataliol wrth ddelio â phobl bregus.

Beth yw nod y rhaglen?


Bydd y rhaglen yn trawsnewid plisma a chyfiawnder troseddol yng Nghymru i gymryd ymagwedd iechyd cyhoeddus wedi ei hysbysu gan ACE sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac atal achosion gwreiddiol, gan gadw pobl fregus allan o'r system cyfiawnder troseddol, torri cylch cenediadol troseddu a gwella bywydau.

Beth mae'r ymchwili yn ei ddweud?

Mae profiadau dirdynol yn ystod plentynod – fel cam-drin, magwraeth mewn lle â thrais yn y cartref, camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl gwael - yn medru achosi rhai problemau difrifol yn ddiweddarach mewn bywyd. Gelwir y rhain yn Brofiadau Niweidiol Mewn Plentynod, neu ACE.

Gall llawer o bobl oresgyn ACE os oes ffactorau amddiffynnol ar waith fel perthynas plentyn-oedolyn y gellir ymddiried ynddi, cred y gallant oresgyn eu caledi a'r gallu i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth yma gan bawb ac mae angen help ar rai i atal pethau rhag mynd o'i le.

Nododd astudiaeth ACE Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015 fod



1 o bob 7 oedolyn
sy'n byw yng Nghymru
wedi profi
4 neu fwy o ACE

Mae'r rhai sydd â
4 ACE neu fwy:



14 x yn fwy tebygol
o fod wedi dioddef trais



15 x yn fwy tebygol
o fod wedi
achosi trais yn erbyn
rhywun arall



20 x yn fwy tebygol
o fod wedi eu carcharu
ar ryw adeg yn ystod
eu hoes.



ac ychydig $\frac{1}{2}$
o dan
wedi profi
o leiaf 1



Nid yw tua
90% o'r hyn y
gofynnir i'r heddlu i
helpu ag ef yn

droseddau difrifol, ond yn hytrach yn faterion yn ymwneud â lles, diogelwch y cyhoedd a materion bregusrwydd cymhleth, sy'n aml yn deillio o ACE a thrawma. Mae hyn yn golygu bod yr heddlu'n dod i gysylltiad â phobl fregus drwy'r dydd bob dydd.

Sut y darperir hyn?

Trwy gymryd ymagwedd ymyrraeth gynnar, gall yr heddlu adnabod, deall, datrys problemau a chyfeirio gyda phartneriaid yn well, fel y gallwn helpu pobl fregus cyn i'w problemau ddatblygu.



Mae systemau 'Cymorth Cynnar' yn cael eu creu, sy'n golygu nad oes ots beth yw angen person bregus - plismona, gofal cymdeithasol, iechyd, tai ayb. - byddant yn derbyn y cymorth holistig angenrheidiol ar yr adeg iawn.



Mae swyddogion a staff heddlu rheng flaen yn cael eu hyfforddi i ddeall effaith ACE fel y gallant adnabod pobl fregus ac ymyrryd yn gynnar, gan roi iddynt y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i weithio gyda phartneriaid eraill a chynnig cymorth i bobl fregus sydd wedi dioddef trawma yn eu plentynod.



Mae'r pedwar heddlu hefyd yn edrych ar y ffordd y maent yn casglu gwybodaeth, yn strwythuro eu sefydliadau ac yn datblygu eu pobl i ddiwallu anghenion eu cymunedau yn well.

Beth yw canlyniadau disgwyliedig y rhaglen?

- Gweithlu sy'n fwy ymwybodol o ACE, ac wedi ei hysbysu gan drawma ar draws plismona a chyfiawnder troseddol.
- Gweithlu mwy gwybodus a medrus sydd â'r grym a'r gallu i ymateb yn rhagweithiol ac yn gyson er mwyn amddiffyn dinasyddion.
- Yr heddlu'n gweithio'n agosach gyda phartneriaid allweddol statudol a thrydydd sector.
- Lleihad yn y galw ailadroddus am blismona a phartneriaid.
- Gwella lles y gweithlu, gostyngiad mewn salwch sy'n gysylltiedig â straen, a gwell boddhad yn y gwaith.

Pwy sy'n rhan o'r rhaglen?

Mae Camau Cynnar gyda'n Gilydd yn bartneriaeth rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru, pedwar Heddlu Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Barnardo's, Carchardai EM a Gwasanaeth Prawf Cymru, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru.

Gwybodaeth Gyswilt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â'r tîm cenedlaethol ar

earlyactiontogether@wales.nhs.uk / **07899 060432** / **07899 060072**



@ACEsPoliceWales



Early Action Together Police & Partners ACEs



lechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

HM Prison &
Probation Service



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



Seetec
JUSTICE



Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Cymru
Wales
Rhan o KSS CRC
Part of KSS CRC



Credwch
mewn plant
Believe in
children
Barnardo's
Cymru